Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# EFFEITHIAU'R DIRWASGIAD CYFREDOL YNG NGHYMRU WLEDIG

Hydref 2009

Prifysgol Aberystwyth University

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o brosiect ymchwil a fu'n edrych ar effeithiau'r dirwasgiad cyfredol yn y Gymru wledig, a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru rhwng Ebrill 2009 ac Awst 2009.

## Y Cefndir

Cafodd Arsyllfa Wledig Cymru ei chomisiynu gan Uned Polisi Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2009 i wneud ymchwil ar effeithiau'r dirwasgiad cyfredol yn y Gymru wledig. Nod yr ymchwil oedd edrych ar ganlyniadau'r dirwasgiad ar gyfer yr economi, cyflogaeth, tai, lles a'r gymdeithas mewn ardaloedd gwledig, gyda golwg ar gymharu sefyllfa cefn gwlad â sefyllfa rhannau eraill o Gymru. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i effeithiau sectoraidd, cymdeithasol a gofodol gwahanol y dirwasgiad yn y Gymru wledig.

## Y Fethodoleg

At ddibenion yr adroddiad, cafodd y Gymru wledig ei diffinio fel yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â dwysedd o lai na 150 o drigolion i bob cilometr sgwâr. Roedd i'r astudiaeth ddau gyfnod. Yn y cyntaf cafwyd dadansoddiadau amserol a gofodol o ddata perthnasol. Gan ddefnyddio amryw o ffynonellau data, cafodd gwybodaeth ei chasglu, ei dadansoddi a'i chyflwyno ar wahanol agweddau ar y dirwasgiad, gan gynnwys prisiau tai, fforddiadwyedd tai, gorffen eiddo, yr angen am dai, adfeddiannu eiddo, digartrefedd, diweithdra, ceiswyr y Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), swyddi gwag, ymholiadau dyledion ac ymholiadau lles eraill, ac ansolfedd busnesau. Lle'r oedd modd, cafodd y data ei ddadansoddi ar draws amser ac ar wahanol raddfeydd gofodol er mwyn cymharu'r sefyllfa wledig â sefyllfaoedd eraill. Yn achos y data ar geiswyr JSA, cafodd dadansoddiad manwl ei wneud ar lefel y ward er mwyn ymchwilio i ddosbarthiadau gofodol yn y Gymru wledig. Cafodd data perthnasol ei ddarparu ar raddfeydd gofodol gwahanol gan gyrff fel Llywodraeth y Cynulliad, Canolfan Byd Gwaith, y Gwasanaeth Ansolfedd, Shelter Cymru a Chyngor ar Bopeth Cymru.

Yn gyfochrog â'r gwaith ystadegol, cafodd cyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig ei chynnal gyda sefydliadau perthnasol ym meysydd yr economi, cyflogaeth, tai, lles a chymdeithas / iechyd. Cysylltwyd i ddechrau â chyfanswm o 50 o sefydliadau ac asiantaethau, ac o'r ffigur hwnnw cytunodd 37 i roi cyfweliad fel rhan o'r ymchwil. Edrychodd y cyfweliadau yn fanylach ar effeithiau'r dirwasgiad ar wahanol sectorau economaidd, grwpiau cymdeithasol a lleoedd yn y Gymru wledig gan gymharu, lle'r oedd modd, rhwng y sefyllfa wledig a sefyllfaoedd eraill. Gofynnwyd hefyd am gael gweld unrhyw ddata ystadegol ychwanegol a oedd gan y sefydliadau hyn. Rhoddodd y sefydliadau a'r asiantaethau canlynol dystiolaeth a sylwebaeth werthfawr, sy'n ffurfio sylfaen yr adroddiad hwn:

- *sefydliadau cyflogaeth* - Ffederasiwn y Busnesau Bach, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Siambrau Masnach;
- *sefydliadau lles a chyngor* – Cyngor ar Bopeth Cymru, Shelter Cymru, Canolfan Gydweithredol Cymru, Llais Defnyddwyr Cymru;
- *tai a chynllunio* - Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Sefydliad Siartredig Brenhinol y Syrfewyr (Cymru), Ffederasiwn Cenedlaethol Adeiladwyr Cymru, Cyngor y Benthycwyr Morgeisiau, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru,

Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Tai Cymunedol Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (Cymru);

- *sefydliadau cymdeithasol / iechyd* - Barnardos Cymru, Achub y Plant, Cymru, Help the Aged ac Age Concern yng Nghymru, Relate Cymru, Mind Cymru, y Sefydliad Cyfeillgar Amaethyddol Brenhinol.

## Allbynnau'r ymchwil

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymhelaethu ar nodyn briffio ar effeithiau gwledig y dirwasgiad yng Nghymru a gyflwynwyd o'r blaen i Lywodraeth y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2009. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd dystiolaeth ystadegol a themâu allweddol o'r cyfweliadau â'r sefydliadau i roi trosolwg ehangach ar sefyllfa yr economi, cyflogaeth, lles, iechyd a'r gymdeithas yn y Gymru wledig yn 2009.

## Y canfyddiadau

Mae'r data a gafodd ei ddadansoddi at yr adroddiad hwn yn dangos bod y dirwasgiad wedi effeithio mewn ffyrdd tebyg ar rannau gwledig a rhannau eraill o Gymru mewn sawl dangosydd allweddol.

### Y farchnad lafur wledig

Mae gan y Gymru wledig gyfradd gweithgarwch economaidd cymharol uchel a lefel diweithdra isel. Yn 2008, roedd y gyfradd gweithgarwch economaidd yn 76.8% o'i chymharu â 75.7% i weddill Cymru. O ran diweithdra, yn 2008 roedd 5.7% o bobl o oedran gweithio yn y Gymru wledig yn ddi-waith, sef ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 6.6%.

Rhwng Gorffennaf 2008 a Gorffennaf 2009, cododd y gyfran o drigolion gwledig di-waith a oedd yn ceisio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), sef prif fudd-dal diweithdra y Deyrnas Unedig, o 1.9% i 3.2%. Sir Benfro a welodd y cynnydd mwyaf yng nghyfradd y ceiswyr di-waith a'r ceiswyr JSA, sef 1.9%, a oedd yn cyd-fynd â ffigur Cymru, a gweddill y Deyrnas Unedig. Dilynwyd hi yn agos gan Sir Fynwy (1.6%), Sir Ddinbych (1.6%) a Chonwy (1.5%). Ond, ar draws Cymru gyfan, yr awdurdodau gwledig a welodd y cynnydd lleiaf yng nghyfraddau'r ceiswyr; islaw'r ffigurau ar gyfer awdurdodau'r Cymoedd a'r trefi (sef 2.6% a 2.1% yn eu trefn

Mae dadansoddi ceiswyr JSA yn y Gymru wledig yn ôl eu galwedigaeth yn dangos bod gweithwyr ym mhob sector wedi'u taro gan y dirywiad yn yr economi, ond mai'r galwedigaethau elfennol sydd wedi'u taro waethaf yn y ddwy flynedd diwethaf, gyda chynnydd o 0.36% y cant yn nifer y ceiswyr di-waith. Ochr yn ochr â hyn, mae'r gyfradd gyfatebol ar gyfer gweithwyr mewn gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid ac ymhlith gweithwyr prosesu, offer a pheiriannau hefyd wedi codi 0.24 a 0.22 pwynt canran yn eu trefn, er mai 0.05 pwynt canran yn unig oedd y cynnydd yn y gyfradd ar gyfer galwedigaethau proffesiynol yn yr un cyfnod. Gwelwyd patrwm tebyg o ddiweithdra uchel ymhlith ceiswyr mewn galwedigaethau anfedrus ac isel eu tâl hefyd ar draws Cymru gyfan ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Mae gan Gymru gyfran uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Mae ffigurau 2008 yn dangos bod lefelau cyflogaeth yn y Gymru wledig mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd yn debyg i'r lefelau yng ngweddill Cymru. Hyd yn hyn, mae'r sector cyhoeddus wedi'i gysgodi i raddau helaeth rhag cynnydd yn lefelau diweithdra. Er hynny, gan y rhagwelir toriadau yn y sector cyhoeddus yn yr ychydig flynyddoedd nesaf mae'n debyg y bydd y sefyllfa hon yn newid. Roedd gan y Gymru wledig lefelau uwch o gyflogaeth mewn dosbarthu, gwestai a bwytai, a oedd yn gyfrifol am ychydig yn fwy nag un rhan o bump (20.5%) o'r holl swyddi gwledig. Roedd

ffigurau'r diwydiannau adeiladu (9.7%) ac amaethyddiaeth / pysgota (5.5%) hefyd yn uwch na'r ffigurau cyfatebol yng ngweddill Cymru (sef 9.0% a 2.3% yn y drefn honno).

Gweddol gyfartal yw cymhareb y swyddi gwag i geiswyr JSA ledled Cymru, a ledled y Deyrnas Unedig. Er hynny, mae dadansoddi'r data sydd ar gael am newidiadau yn nifer y swyddi gwag i bob ceisydd JSA yng Nghymru rhwng Mai 2006 a Gorffennaf 2009 yn dangos bod gan y Gymru wledig, erbyn Ionawr 2009, y nifer isaf o swyddi gwag am bob ceisydd. Cafwyd arwyddion o welliant mewn ffigurau mwy diweddar ar gyfer Gorffennaf 2009, ond roedd cymhareb y swyddi gwag i geiswyr yn Ynys Môn (0.1) yn parhau'n is na chymhareb Cymru (0.2) ac yn debyg i'r gymhareb ar gyfer awdurdodau'r cymoedd. Roedd gweddill yr awdurdodau gwledig yn debyg i gymhareb Cymru neu'n well na hi.

Dangosodd y cyfweliadau fod pobl ddi-waith mewn ardaloedd gwledig yn ei chael yn anodd sicrhau gwybodaeth a chyngor am Ganolfan Byd Gwaith. Honnwyd hefyd fod llai o ddarpariaeth ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig nag mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae pobl ifanc a'r rhai 'nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant' (sy'n cael eu hadnabod fel NEETs) yn wynebu her benodol yn y dirwasgiad cyfredol. Oherwydd hynny, mae gwasanaethau cynghori a chwnsela erbyn hyn yn wynebu cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau o blith y grwp oedran hwn, ac mae'n ymddangos ei bod yn debyg y bydd y duedd hon yn parhau hyd y gellir gweld yn y dyfodol.

Ym mhen arall y sbectrwm oedran, dywedodd sefydliadau cyngor lles fod pobl hyn mewn perygl o gael eu gosod o dan anfantais barhaol gan y dirwasgiad cyfredol, gan fod cynnydd anghymesur mewn afreidedd ymhlith gweithwyr hyn a oedd yn dynesu at ymddeol.

Mae niferoedd y gweithwyr mudol sy'n dod i'r wlad yn arafu ar hyn o bryd, a hynny am fod y cyflenwad cyflogaeth yng Nghymru'n fwy cyfyngedig ac am fod gwerth sterling wedi gostwng yn erbyn llawer o fathau o arian.

### Y farchnad dai wledig

Dywedodd y rhai y cyfwelwyd â nhw fod y diwydiant adeiladu wedi'i daro'n galed gan y dirwasgiad a'i fod yn disgwyl gweld gostyngiad sylweddol mewn gweithgarwch. Soniwyd am amryw o effeithiau ar y diwydiant adeiladu: roedd adeiladu ar hap bron â dod i ben; roedd y farchnad ar gyfer tir i'w ddatblygu wedi mynd â'i ben iddi; ac roedd yna adroddiadau bod cwmnïau'n tynnu allan o gytundebau tir. Mae'r diwydiant adeiladu yn gyflogwr pwysig mewn llawer o ardaloedd gwledig, gyda 9.7% o'r boblogaeth wledig yn dibynnu ar y sector hwn am eu gwaith ar hyn o bryd (Nomis, 2008). Gan hynny, bydd effaith y newidiadau cyfredol yn cael ei theimlo'n eang.

Mae prisiau tai wedi bod yn gostwng ledled Cymru ers mis Chwefror 2008, ac yn y cymoedd a'r awdurdodau gwledig y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf. Gwelodd yr awdurdodau gwledig ostyngiad o 13.1% o'i gymharu ag 11.4% yn yr awdurdodau trefol. Yn Sir Ddinbych y gwelwyd y gostyngiad mwyaf ym mhrisiau tai gwledig (fel cyfran o'u cyfartaledd yn 2008) yn ystod y cyfnod hwn, ac yno cafwyd gostyngiad canrannol o fwy na'r gostyngiad ar gyfer Cymru gyfan.

Dangosodd y cyfweliadau nad yw'r newidiadau diweddar yn y farchnad dai wedi cael fawr o effaith ar fforddiadwyedd tai yng nghefn gwlad. Er gwaethaf gostyngiad mewn prisiau, mae tai yn mynd yn llai fforddiadwy oherwydd yr anawsterau ar hyn o bryd wrth geisio cael y morgeisiau angenrheidiol ac erbyn hyn mae'n anos i ddechreuwyr newydd a'r rhai ar incwm

isel ddod yn berchnogion tai. Mae amodau cyfredol y farchnad yn gwaethygu'r anawsterau sy'n wynebu pobl ifanc ac aelwydydd incwm isel i ddod o hyd i eiddo y maen nhw'n gallu ei fforddio.

Rhwng Ionawr 2008 a Mawrth 2009, cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer yr aelwydydd yr oedd yr awdurdodau lleol yn eu dosbarthu yn rhai digartref. Er hynny, roedd y gostyngiad yn llai amlwg yn y Gymru wledig. Ochr yn ochr â hyn, nododd Shelter Cymru gynnydd arwyddocaol mewn problemau ynghylch dyledion morgais, lefelau rhent, adeiladau'n dadfeilio, a landlordiaid yn adfeddiannu eiddo o ganlyniad i'r dirwasgiad cyfredol.

**Lles a chyngor**

Cyfeiriodd sefydliadau lles a chyngor at gynnydd yn y galw am wasanaethau tai, cyngor ar ddyledion ac ymholiadau ynghylch budd-daliadau o ganlyniad i'r dirwasgiad. Roedd nifer cyfartalog yr ymholiadau i Gyngor ar Bopeth Cymru mewn ardaloedd gwledig bron â dyblu ers dechrau'r dirwasgiad. At ei gilydd, roedd nifer cyfartalog yr ymholiadau yn uwch nag yn yr ardaloedd trefol, ond yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

Roedd yr anawsterau allweddol yr oedd cleientau gwledig yn eu profi yn cynnwys problemau dyledion morgais ac achosion adfeddiannu; dyledion rhent; dyledion yn gysylltiedig â nifer fawr o gredydwyr a benthyciadau wedi'u gwarantu ar eiddo; materion tor-perthynas; pobl yn colli eu cartrefi oherwydd materion cymdeithasol eraill; llai o oriau; afreidedd; a gwaith tymor byr neu waith achlysurol yn dod i ben.

Soniodd Age Concern am gynnydd arwyddocaol mewn ymholiadau am gronfeydd pensiwn yn colli eu gwerth; lefelau is o incwm o gynilion; ac anawsterau pobl hyn wrth dalu am gynnydd uwchlaw chwyddiant yng nghostau bwyd a thanwydd. Mae effaith y newidiadau hyn yn fwy nodedig byth yng nghefn gwlad oherwydd yr heriau unigryw y mae trigolion cefn gwlad, yn enwedig pobl hyn, yn eu hwynebu o ddydd i ddydd (sef cysylltiadau gwael â chludiant cyhoeddus, problemau arwahanrwydd).

Nododd y rhai y cyfwelwyd â nhw fod colli cyflogaeth a'r bygythiad o golli cartref yn gosod straen aruthrol ar iechyd yr unigolyn ac ar berthnasoedd teuluol, ond nad oedd llawer o ddata cadarn ar gael ar hyn o bryd am y mathau hyn o effaith y dirwasgiad. Dywedwyd hefyd fod yna rwystrau sylweddol yn atal pobl rhag ceisio cymorth mewn ardaloedd gwledig, a hynny yn y gymuned amaethyddol ac ymhlith y garfan ifanc a'r garfan hyn yn y boblogaeth wledig.

Nododd yr ymchwil dystiolaeth o broblemau cymdeithasol, problemau lles a phroblemau iechyd arwyddocaol ymhlith ffermwyr a'u teuluoedd yn y Gymru wledig, yn enwedig mewn ardaloedd fel Sir Gaerfyrddin, Powys a Gwynedd. Ond, er gwaethaf tystiolaeth o gynnydd mewn ymholiadau i wasanaethau cyngor a chymorth RABI, mae yna anfodlonrwydd cyffredinol o hyd i ofyn am gymorth a chyfarwyddyd i ddatrys anawsterau parhaus. Mewn ardaloedd gwledig, bydd llawer o broblemau felly yn tueddu i gael eu celu gan rwydweithiau cymunedol agos.

**Yr amgylchedd busnes gwledig**

Mae'r economi gwledig yn dibynnu'n fwy ar fusnesau bach nag ardaloedd eraill. Roedd yn glir o'r cyfweliadau bod y busnesau hyn mewn sawl sector allweddol, gan gynnwys manwerthu, dosbarthu a thwristiaeth, yn wynebu her sylweddol o du'r dirywiad yn yr economi. Nodwyd bod problemau llif arian, dyledion morgais ac adfeddiannu cartrefi yn benodol yn heriau allweddol a oedd yn wynebu busnesau bach yn y Gymru wledig.

Mae'n ymddangos bod amaethyddiaeth wedi gwneud yn well na diwydiannau eraill yn ystod y dirwasgiad hwn. Yn ddiweddar mae'r sector amaethyddol

wedi cael problemau a achoswyd gan glefydau fel BSE, Clwy'r Traed a'r Genau, y Diciâu a Thafod Glas. Mae grym y manwerthwyr mawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd wedi gorfodi prisiau bwyd y Deyrnas Unedig i lawr ac wedi arwain at daliadau llai i ffermwyr. Er hynny, yn fwy diweddar mae Sterling wedi gwanhau cryn dipyn yn erbyn yr Ewro, sy'n golygu bod cynhyrchion yn fwy cystadleuol yn y farchnad Ewropeaidd. Mae hyn yn arbennig o wir am allforion cig eidion a chig oen.

Mae hyfywedd economaidd y sector llaeth wedi wynebu her benodol yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, o ganlyniad o gwymp arwyddocaol ym mhrisiau cynwyddau'r byd a chynnydd ym mhrisiau porthiant a gwrtaith. Mae cwymp menter gydweithredol y Dairy Farmers of Britain wedi peri mwy o galedi i ffermwyr llaeth ledled Cymru. Er hynny, pwysleisiwyd bod y diwydiant amaethyddol mewn sefyllfa gryfach wrth geisio sicrhau cyllid, gan fod llawer o'r banciau'n dal i weld amaethyddiaeth fel maes i barhau i weithredu ynddo.

Mae cymharu ffigurau ymwelwyr ar gyfer hanner cyntaf 2009 â'r blynyddoedd blaenorol yn awgrymu bod diwydiant twristiaeth Cymru yn gwneud yn dda. Er hynny, dylai ffigurau cyfnod yr haf, a ddylai fod ar gael tua diwedd 2009 roi darlun mwy cywir o'r sefyllfa yng Nghymru.

Mae dyfodol economi llawer o'r Gymru wledig yn dibynnu ar ffyniant y diwydiant twristiaeth yn y tymor hir ac ar sicrhau bod y diwydiant yn ateb ac yn rhagori ar anghenion y farchnad, gan sicrhau bod ansawdd cynhyrchion twristiaeth Cymru'n cael ei chadw . Er hynny, mae natur dymhorol y diwydiant twristiaeth yn broblem allweddol i ardaloedd anghysbell, megis Penrhyn Llyn a Sir Benfro, sy'n rhy bell o ardaloedd trefol i fanteisio ar unrhyw gynnydd yn nifer y tripiau undydd. Gan hynny, mae effaith y dirwasgiad ar yr ardaloedd hyn yn debyg o fod yn llawer mwy amlwg.

**Yr effaith ar gymunedau gwledig**

Mae cael gafael ar wasanaethau yn broblem eisoes mewn llawer rhan o'r Gymru wledig ac mae'r sefyllfa'n debyg o fynd yn waeth os bydd yna doriadau yn arian y sector cyhoeddus. Mae'r toriadau hyn yn debyg o gael yr effaith fwyaf ar y rhai sydd ag incwm isel, trigolion hyn, a theuluoedd sy'n dibynnu'n fwyaf ar wasanaethau lleol. Mae gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu drwy sefydliadau lles a chyngor yn y trydydd sector, sy'n dibynnu ar gyllid cyhoeddus, hefyd yn debyg o gael eu taro gan unrhyw doriadau yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol.